Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflwr yr Ystad


Effeithlonrwydd a pherfformiad amgylcheddol ystad weinyddol Llywodraeth Cymru 2020-2021














llyw.cymru

# Cynnwys


1. **Cyflwyniad** 3

2. **Perfformiad yr Ystad** 5
   - Effeithiolrwydd 5
   - Maint a Chostau Rhedeg 6

3. **Effeithlonrwydd Amgylcheddol** 7
   - Ynni 7
   - Gwastraff 7
   - Dŵr 8
   - Perfformiad amgylcheddol 8
   - Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos – yr 8 prif safle 9

4. **Edrych tua'r Dyfodol** 10

**Atodiad 1:** 11
Data allweddol 15 swyddfa graidd yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2021

**Atodiad 2:** 13
Arbedion yn sgil gwagio adeiladau 2015, 2020 a 2021

**Atodiad 3:** 14
Crynodeb o Berfformiad 2015, 2020 a 2021

**Atodiad 4:** 15
Crynodeb o Berfformiad yr Ystad Arbenigol


OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG46020, ISBN digidol 978-1-80535-118-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# 1. Cyflwyniad

Bu'r rhan fwyaf o'n swyddfeydd ar gau am gyfran dda o'r flwyddyn o achos pandemig Covid 19, gyda'r holl staff heblaw am y rhai hanfodol yn gweithio o bell. Mae'r adroddiad hwn felly ond yn nodi'r prif feincnodau o ran costau a pherfformiad amgylcheddol.

Daeth Strategaeth Leoli 2015-20 i ben ym mis Mawrth 2020. Cymerwyd ei lle gan y Strategaeth Gweithle 10 mlynedd sy'n nodi fframwaith o egwyddorion fydd yn llywio cynlluniau'r dyfodol ac yn sicrhau ein bod y cael y gorau posibl o'r Ystad Weinyddol. Erys yr ymrwymiad i ystad wasgaredig, ac i gynyddu'r pwyslais ar ddatblygu ystad sy'n cefnogi polisïau ehangach y Llywodraeth ar yr argyfwng hinsawdd a natur.

Mae cefnogi canol trefi, cynaliadwyedd ein hadeiladau a thrafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwy yn parhau i fod yn ystyriaethau pwysig wrth lunio ystad y dyfodol. Mae bod yn fwy hyblyg er mwyn ymgorffori tueddiadau a pholisïau ynghylch patrymau gweithio mwy cyfunol yn awgrymu bod angen math gwahanol o ofod swyddfa. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ariannol yn parhau i fod yn ystyriaeth bwysig iawn wrth wneud penderfyniadau.

Byddwn yn parhau i drafod â staff ac Undebau Llafur wrth ystyried yr opsiynau pan ddaw cyfle i gau neu gyfnewid swyddfeydd gan ddadansoddi'r costau a'r manteision yn fanwl.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r prif ddata perfformiad o ran effeithlonrwydd a'r amgylchedd ac yn eu cymharu â ffigurau cyfatebol y strategaeth flaenorol. Dyma'r prif ddangosyddion:

- Maint a chost rhedeg yr ystad:
  - Rhent[1]
  - Ardrethi Busnes
  - Costau eraill.
- Effeithlonrwydd y gweithle:
  - £ fesul swydd cyfwerth ag amser llawn (FTE)
  - Metrau sgwâr fesul swydd FTE.
- Perfformiad ynni fel Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC).
- Perfformiad amgylcheddol o ran allyriadau $CO_2$ cynhyrchu ac ailgylchu gwastraff a defnyddio dŵr.

Mae'r ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg o effeithlonrwydd y swyddfeydd gweithredol craidd a oedd yn rhan o'r ystad ar 31 Mawrth 2021. Rhestrir y swyddfeydd hyn yn Atodiad 1.

Nid ydym wedi cynnwys eiddo arbenigol yn y ffigurau cost-effeithlonrwydd a nodir ym mhrif gorff yr adroddiad. Fe welwch fanylion yr eiddo arbenigol hyn yn Atodiad 4.

1 Defnyddir rhent dybiannol ar gyfer swyddfeydd rhydd-ddaliadol. Adolygir hyn bob 5 mlynedd yn unol â'r prisiad asedau corfforaethol. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ar 31 Mawrth 2020.

## 1.1 Yr Ystad Weinyddol


Roedd yr Ystad yn darparu 69,850 m sg o ofod gweithio a chyfarfod hyblyg modern ar gyfer 5,517 o staff a chontractwyr cyfwerth ag amser llawn, ar 31 Mawrth 2021.

Mae'r 15 swyddfa graidd yn cynnwys y prif hybiau ym Mharc Cathays Caerdydd, Rhyd-y-Car Merthyr Tudful, Rhodfa Padarn, Aberystwyth a Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno. Ceir swyddfeydd ac adeiladau eraill ledled Cymru i sicrhau presenoldeb gwasgaredig ac i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion busnes (Ffigur 1).

Ceir data ategol yn Atodiadau'r adroddiad hwn:

- **Atodiad 1:** Data allweddol 15 swyddfa graidd yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2021.
- **Atodiad 2:** Arbedion yn sgil gwagio eiddo 2015, 2020 a 2021.
- **Atodiad 3:** Crynodeb o Berfformiad 2015, 2020 a 2021.
- **Atodiad 4:** Crynodeb o Berfformiad yr Ystad Arbenigol.

## Ffigur 1: Lleoliad swyddfeydd craidd Llywodraeth Cymru



# 2. Perfformiad yr Ystad

Bu’r rhan fwyaf o weithwyr swyddfa yn gweithio o bell yn ystod 2020-2021.

Er mwyn gallu cymharu â blynyddoedd blaenorol, mae'r ffigurau'n seiliedig ar y dybiaeth bod yr holl weithwyr a chontractwyr swyddfa wedi gweithio yn eu safleoedd contractiol gydol y flwyddyn, ac eithrio staff yn QED, sydd, at ddibenion y dadansoddiad hwn yn unig, wedi'u neilltuo i swyddfeydd cyfagos.[2]

## 2.1 Effeithiolrwydd

Yn gyffredinol, mae'r Ystad Weinyddol yn parhau i grebachu o ran maint, gyda phlas Caeriw, Nantgarw a QED, Trefforest yn cau. Mae dau lawr yn safle Teras Picton, Caerfyrddin yn dal yn wag ac yn ddiangen ac ni adnewyddwyd prydles y storfa yn Llandochau, Caerdydd. Bydd adeilad QED yn cael ei werthu ac rydym yn chwilio am denantiaid ar gyfer y gofod gwag yn Nheras Picton, Caerfyrddin.

Cafodd maint yr ystad graidd ei leihau 6,331 m sg yn ystod y flwyddyn i 69,850 m sg.

Mae'r angen am ystad wasgaredig ledled Cymru yn cyfyngu ar gyfleoedd i gau swyddfeydd ymhellach, ond rydym yn ystyried yr opsiynau i sicrhau’r 'maint cywir' drwy ddatblygu achosion busnes, arfarnu buddsoddiadau ac ymgynghori â staff ac Undebau Llafur wrth i gyfleoedd, megis cymalau torri neu derfynu prydlesau, godi. Wrth i arferion gweithio o bell ennill eu plwyf, rhagwelir y bydd natur yr ystad swyddfeydd yn newid ymhellach a chodith fwy o gyfleoedd i sicrhau arbedion trwy fod yn effeithlon.

Mae cyfleoedd i gydleoli, naill ai drwy is-osod gofod dros ben neu mewn adeiladau cyhoeddus eraill yn parhau i gael eu harchwilio, ond bu llai o weithgarwch yn hyn o beth o ganlyniad i'r pandemig yn 2020-21.

Cadwyd at y cynllun rhesymoli o 5 swydd FTE fesul 10 gweithfan ac 8 metr sgwâr fesul gweithfan. Parhaodd yr adolygiadau o ofynion swyddfeydd Abertawe a Threfforest ar sail hyn hyd 2021-2022 ac mae'r swyddfeydd yn y Drenewydd wedi'u cyfuno'n un llawr.

Mae'r ffigurau perfformiad allweddol ar gyfer yr ystad gyfan wedi'u nodi isod. Ceir dadansoddiad fesul adeilad yn Atodiad A.

2 At ddiben yr adroddiad hwn, neilltuir y gweithwyr hyn, gan gynnwys staff Awdurdod Refeniw Cymru, fel arfer i Barc Cathays, Bedwas a Merthyr Tudful, hynny at ddibenion dadansoddi yn unig. Nid yw’n cael unrhyw effaith ar y prif faincnod sy’n ymwneud â’r ystad gyfan.

## 2.2 Maint a Chostau Rhedeg

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | Newid 31 Mawrth 2020-2021 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Ystad** | | | | |
| Arwynebedd yr Ystad Gyfan (m sg) | 82,295 | 76,181 | 69,850 | -8.31% |
| Nifer yr Eiddo | 25 | 17 | 15 | -2 |
| Cost ( m ) | £18.136 | £20.42 | £18.413 | -9.83% |
| **Effeithlonrwydd** | | | | |
| Cost fesul FTE | 3,285 | 3,778 | 3,337 | -11.67% |
| Cost fesul m sg | 212.4 | 268.04 | 263.61 | -1.65% |
| M sg fesul FTE | 15.5 | 14.1 | 12.6 | -9.93% |

# 3. Effeithlonrwydd Amgylcheddol

Arweiniodd pandemig COVID-19 at ostyngiad enfawr yn nifer y staff sy'n gweithio yn y safleoedd gwaith. Mae hynny wedi cael effaith ddofn ar y defnydd o gyfleustodau a'r gwastraff a gynhyrchir.

## 3.1 Ynni

- Gostyngiad o **8.1%** fel canran yn yr allyriadau $tCO_2e$ gros o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Gostyngiad o **25%** yn y defnydd o drydan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Cynnydd o **51%** yn y defnydd o nwy o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Priodolir y cynnydd yn y defnydd o nwy i'r angen am systemau aerdymheru oedd yn cynnal cyflenwad o aer ffres rhag ailgylchredeg aer, hyn oll i leihau'r risg o drosglwyddo COVID.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn canllawiau'r diwydiant ar weithredu ei systemau adeiladu'n ddiogel.

## 3.2 Gwastraff

Cafodd Covid effaith gadarnhaol ar faint o wastraff a gynhyrchwyd, ond effaith negyddol ar y gyfran yr oedd modd ei hailgylchu gan fod gwastraff meddygol fel masgiau, menig a chlytiau gwrthfacterol wedi'u halogi.

- Gwelwyd 82% yn llai o wastraff, o 284 tunnell yn 2019-2020 i 50 tunnell yn ystod 2020-2021.
- Gwelwyd gostyngiad o 71% yn swm y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi dros yr un cyfnod, ond dyblodd y ganran a anfonwyd i safleoedd tirlenwi.
- Cafodd 69% o gyfanswm y gwastraff ei ailgylchu, gostyngiad o 83%, sef lefel y flwyddyn flaenorol.
- Cynyddodd cyfran y gwastraff a anfonwyd i gynhyrchu ynni o 17% i 29%.

## 3.3 Dŵr

Roeddem wedi disgwyl y gostyngiad yn y defnydd o ddŵr i 2.1 $m^3$/y pen gan fod llai o staff a chontractwyr yn y swyddfeydd a chontractwyr ar y safle a bod rhai swyddfeydd wedi cau.

## 3.4 Perfformiad amgylcheddol

Dangosir manylion yr allyriadau tŷ gwydr, faint o wastraff a gynhyrchwyd ac o ddŵr a ddefnyddiwyd yn yr Ystad Weinyddol isod:


| GHG | 2018-2019 | 2019-2020 | 2020-2021 | Newid 31 Mawrth 2020-2021 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm allyriadau (t $CO^2e$) | 4236 | 3713 | 3500 | - 5.74% |
| Trydan (t $CO^2e$) | 3193 | 2647 | 1896 | -28.37% |
| Nwy (t $CO^2e$) | 1043 | 1066 | 1604 | +50.47% |
| **Gwastraff** | **2015-2016** | **2019-2020** | **2020-2021** | |
| Cyfanswm gwastraff (tunelli) | 372 | 284 | 50 | -82.39% |
| Tirlenwi (tunelli) | 112 | 3.8 | 1.1 | -71% |
| Tirlenwi (%) | 1 | 1 | 2 | +100% |
| Gwastraff i gynhyrchu ynni (%) | 11 | 17 | 29 | +70.59% |
| Ailddefnyddio/Ailgylchu (%) | 88 | 82 | 69 | -15.85% |
| **Dŵr** | **2015-2016** | **2019-2020** | **2020-2021** | |
| ($m^3$ fesul person/bl) | 8 | 5.6 | 2.1 | -419.64% |

## 3.5 Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos – yr 8 prif safle

Gan yr oedd y rhan fwyaf o swyddfeydd wedi cau am y flwyddyn neu am ran ohoni, mae'r Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos yn dangos gwelliant pendant o'u cymharu â 2019-2020.

Y mesur cyfartalog oedd Band D o hyd, gyda gostyngiad o 74 i 62.375.

### Perfformiad DEC y Safle 2020-2021




### Perfformiad Amgylcheddol

Mae'r sgôr Tystysgrifau Ynni wedi gwella 3 phwynt ar gyfartaledd ers 2018-29. Gwnaeth pob swyddfa berfformio'n well na'r cyfartaledd o ran ei math a'i maint, gyda 7 o'r 11 wedi gwella ers Mawrth 2019.

Mae'r ystad wedi cynnal neu wella'i pherfformiad amgylcheddol mewn 6 o'i 8 safle.

# 4. Edrych tua’r Dyfodol

Mae'r adroddiad hwn ar Gyflwr yr Ystad 2020-21 yn edrych yn ôl ar flwyddyn pan fu’n swyddfeydd unwaith eto’n wag wrth i staff weithio o bell yn ystod y pandemig.

Llwyddwyd i wella lefelau effeithlonrwydd trwy ostwng nifer yr adeiladau. Ond gyda pholisi a thechnoleg yn cefnogi pobl i weithio o bell, mae’n anodd gwybod beth fydd gofynion yr ystad yn y dyfodol.

O ystyried yr ymrwymiad i ystad wasgaredig, bydd cyfleoedd i wella effeithlonrwydd yn y dyfodol yn dibynnu i raddau helaeth ar wneud mwy o ddefnydd o'r adeiladau hynny rydym wedi’u cadw. Fodd bynnag, gan fod y model gweithio cyfunol i’w weld yn cael ei efelychu ar draws y sector cyhoeddus, y realiti yw ei bod yn debygol y bydd lleoedd yn dal i gael eu tanddefnyddio ar draws yr ystad gyhoeddus yn gyffredinol. Bydd hyn yn ei gwneud yn anoddach i allu gwella effeithlonrwydd.

# Atodiad 1: Data allweddol 15 swyddfa graidd yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2021

| Cyfeiriad | O dan Berchnogaeth LlC NIA* | NIA* m sg | Staff Snowdrop 2021 (gan gyn contractwyr yn defnyddio gofod LlC) | m sg fesul aelod o staff Snowdrop | Cymhareb ddesgiau | Rhydd/ Les-ddaliad | Alldaliadau Blynyddol heb Rent ac Ardrethi | Ardrethi 2021 | Rhent gan gyn TAW |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CP1 a CP2 Parc Cathays, Caerdydd | 37,923 | 37,696 | 3,012.2 | 13 | 0.85 | ○ | £4,559,322 | £1,270,978 | £3,409,420 |
| Rhan o Loriau 2/5, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd | | 1,792 | 127.8 | 14 | 1.34 | ■ | £47,924 | £0 | £0 |
| Tŷ'r Afon, Bedwas Road, Bedwas, Caerffili | | 2,486 | 212.3 | 12 | 1.16 | ■ | £306,588 | £107,776 | £374,490 |
| Rhyd-y-Car, Merthyr Tudful | 6,097 | 6,097 | 559.4 | 11 | 1.02 | ○ | £1,208,144 | £264,825 | £825,000 |
| Teras Picton, Caerfyrddin | 3,791 | 2,920 | 273.1 | 11 | 0.89 | ○ | £215,773 | £106,826 | £202,100 |
| Parc Busnes Havenshead, Aberdaugleddau | | 155 | 28.0 | 6 | 0.64 | ■ | £19,592 | £7,089 | £16,800 |
| Llys-y-Ddraig, Parc Busnes Penllergaer, Abertawe | 1,792 | 1,713 | 255.9 | 7 | 0.89 | ○ | £267,497 | £80,785 | £148,180 |
| Rhodfa Padarn, Aberystwyth | 6,262 | 5,781 | 291.3 | 20 | 1.29 | ○ | £1,054,750 | £260,979 | £544,325 |
| Adeilady Goron, Spa Road East, Llandrindod | 2,672 | 2,346 | 109.1 | 22 | 1.47 | ○ | £194,402 | £51,116 | £133,212 |
| Ladywell House, Y Drenewydd | | 1,166 | 71.6 | 16 | 1.35 | ■ | £193,057 | £40,613 | £126,018 |
| Timekeepers Office, Caergybi | | 55 | 8.0 | 7 | 0.63 | ■ | £5,966 | £3,531 | £5,000 |
| Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno | 7,105 | 6,139 | 425.2 | 14 | 1.01 | ○ | £1,092,607 | £323,274 | £541,497 |
| 1 Grosvenor Lodge, Grosvenor Road, Wrecsam | | 318 | 16.8 | 19 | 1.43 | ■ | £39,935 | £13,509 | £40,800 |
| Ystafelloedd 5, 7 & 8 Bloc A, Doc Victoria, Caernarfon | | 738 | 86.0 | 9 | 0.93 | ■ | £86,606 | £15,916 | £76,200 |
| Llawr Gwaelod, Uned 2 Oak House, Parc Busnes Celtic Springs, Casnewydd | | 448 | 40.7 | 11 | 0.76 | ■ | £40,810 | £25,906 | £63,600 |

* NIA – Arwynebedd Mewnol Net ○ Rhydd-ddaliad ■ Les-ddaliad

# Atodiad 2: Arbedion yn sgil gwagio adeiladau 2015, 2020 a 2021

| | Dyddiad Gwagio | Cyfanswm Bras Arbedion 2015-16 | Cyfanswm Bras Arbedion 2016-17 | Cyfanswm Bras Arbedion 2017-18 | Cyfanswm Bras Arbedion 2018-19 | Cyfanswm Bras Arbedion 2019-20 | Cyfanswm Bras Arbedion 2020-21 | Cyfanswm Bras Arbedion 2021-22 | Cyfanswm 7 ml |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wynchway House, Hwlffordd | 01/02/2016 | £21,861 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | **£808,869** |
| Ffordd Arran, Dolgellau | 31/03/2016 | - | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | **£42,438** |
| Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth | 31/03/2016 | - | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | **£174,564** |
| Brecon House, Caerffili | 31/05/2017 | - | - | £106,280 | £127,606 | £127,606 | £127,606 | £127,606 | **£616,704** |
| Tyr Llyn, Abertawe | 23/06/2017 | - | - | £371,811 | £481,245 | £481,245 | £481,245 | £481,245 | **£2,296,791** |
| Hen Ficerdy, Caergybi | 12/01/2018 | - | - | £7,110 | £33,271 | £33,271 | £33,271 | £33,271 | **£141,094** |
| Hill House, Teras Picton, Caerfyrddin | 01/04/2018 | - | - | - | £139,078 | £139,078 | £139,078 | £139,078 | **£556,312** |
| Bocam Park, Pen-y-bont ar Ogwr | 22/06/2018 | - | - | - | £92,863 | £119,770 | £119,770 | £119,770 | **£452,173** |
| Adeiladau'r Goron, Penrallt, Caernarfon | 27/07/2018 | - | - | - | £242,337 | £356,666 | £356,666 | £356,666 | **£1,312,335** |
| Clarence House, Casnewydd | 30/05/2019 | - | - | - | - | £79,381 | £94,999 | £94,999 | **£269,379** |
| Southgate House, Caerdydd | 19/09/2019 | - | - | - | - | £87,042 | £163,766 | £163,766 | **£414,574** |
| 33 Newport Road, Caerdydd | 31/03/2020 | - | - | - | - | - | £4,340 | £4,340 | **£8,680** |
| Plas Carew, Nantgarw (Unedau 5/7) | 12/02/2021 | - | - | - | - | - | £72,318 | £561,619 | **£633,937** |
| Uned 22 Y.Dd. Llandochau, Heol Penarth, Caerdydd | 23/03/2021 | - | - | - | - | - | £2,588 | £118,089 | **£120,677** |
| **Cyfanswm Arbedion** | | **£21,861** | **£167,335** | **£652,536** | **£1,283,735** | **£1,591,394** | **£1,763,432** | **£2,368,234** | **£7,848,527** |

# Atodiad 3: Crynodeb o Berfformiad 2015, 2020 a 2021

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Effeithiolrwydd** | | | | | | | |
| Cost fesul FTE | £3,139 | £3,229 | £3,380 | £3,576 | £3,428 | £3,778 | £3,337 |
| Cost-effeithlonrwydd – fesul m sg | £220.37 | £212.82 | £223.85 | £230.02 | £233.22 | £268.04 | £263.61 |
| Rhent fesul m sg | £71.08 | £71.26 | £71.61 | £69.71 | £69.34 | £96.60 | £93.15 |
| Ardrethi fesul m sg | £33.07 | £33.84 | £33.85 | £34.98 | £37.26 | £37.76 | £36.84 |
| Arall fesul m sg | £116.23 | £107.72 | £118.39 | £125.33 | £126.62 | £133.68 | £133.62 |
| Effeithlonrwydd Gofod – m sg/FTE | 14.2 | 15.2 | 15.1 | 15.5 | 14.7 | 14.1 | 12.7 |
| M sg fesul gweithle | 11.46 | 11.95 | 12.21 | 12.63 | 12.91 | 12.85 | 13.35 |
| Gweithleoedd fesul FTE | 1.24 | 1.27 | 1.24 | 1.23 | 1.14 | 1.1 | 0.95 |
| **Perfformiad Amgylcheddol** | | | | | | | |
| Cyfanswm Allyriadau (t $CO_2$) | 8,498 | 6,939 | 6,259 | 5,376 | 4,236 | 3,713 | 3,500 |
| Trydan (t $CO_2$) | 7,185 | 5,863 | 5,193 | 4,259 | 3,193 | 2,647 | 1,896 |
| Nwy (t $CO_2$)*[3] | 1,313 | 1,076 | 1,066 | 1,117 | 1,043 | 1,066 | 1,604 |
| Cyfanswm Gwastraff (Tunelli) | 500 | 498 | 553 | 350 | 372 | 284 | 50 |
| Tirlenwi (% o'r cyfanswm) | 25 | 22 | 18.5 | 12 | 1 | 1 | 2 |
| Ailgylchu (% o'r cyfanswm) | 75 | 78 | 81.5 | 88 | 88 | 82 | 69 |
| Gwastraff i Gynhyrchu Ynni (% o'r cyfanswm) | - | - | - | - | 11 | 17 | 29 |
| Dŵr (M.3/person/bl)**[4] | 8.3 | 8 | 7.1 | 6.3 | 6.2 | 5.6 | 2.1 |

3 Ffigurau'n cynnwys yr olew a'r nwy hylif a ddefnyddiwyd .
4 Effeithiwyd ar y ffigur hwn gan y ffaith y bu'n rhaid fflysio systemau dŵr yn rheolaidd dros COVID i gadw'r amgylchedd gwaith yn ddiogel.

# Atodiad 4: Crynodeb o Berfformiad yr Ystad Arbenigol

| Cyfeiriad | Rheswm dros ei eithrio | NIA* m sg | Cyfanswm Cost Flynyddol 2016-2017 | Cyfanswm Cost Flynyddol 2017-2018 | Cyfanswm Cost Flynyddol 2018-2019 | Cyfanswm Cost Flynyddol 2019-2020 | Cyfanswm Cost Flynyddol 2020-2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 Victoria Street, San Steffan | Swyddfa y tu allan i Gymru | 304 | £334,994 | £479,844 | £435,749 | £358,403 | £371,782 |
| Cyfleuster Arbenigol, Cil- y-Coed | Defnydd Arbenigol | N/A | £523,807 | £768,651 | £544,002 | £597,208 | £669,404 |
| Canolfan Rheoli Traffig, Coryton, Caerdydd | Defnydd Arbenigol (Traffig) | 763 | £230,799 | £236,951 | £298,460 | £174,748 | £176,786 |
| Canolfan Rheoli Traffig, PB Morfa, Ffordd Sam Pari, Morfa | Defnydd Arbenigol (Traffig) | 1,128 | £165,272 | £190,144 | £179,382 | £127,542 | £133,418 |
| Plot 233, Pafiliwn, Maes y Sioe Fawr, Llanfair-ym-Muallt | Defnydd Arbenigol (Pafiliwn) | 220 | £50,600 | £74,932 | £69,050 | £47,438 | £45,446 |
| Adeilad Arbenigol Materion Gwledig, Sir Gaerfyrddin | Defnydd Arbenigol | 452 | £49,592 | £34,123 | £36,957 | £36,104 | £35,091 |